Porthaethwy
Ynys Môn
LL59 5SS
Ffôn: (01248) 712287
e-bost: ydhpen@ynysmon.gov.uk

Pennaeth / Headteacher
H.Emyr Williams BSc, MEd

Menai Bridge
Isle of Anglesey
LL59 5SS
Tel: (01248) 712287
e-mail: ydhpen@anglesey.gov.uk

Mehefin 2020

Annwyl Riant/Gwarcheidwad,

Rwy'n gobeithio eich bod chi a'ch teuluoedd yn saff ac yn iach a'ch bod yn ymdopi dan yr amgylchiadau dyrys a digynsail yma.
Yn arferol, byddem wedi hen ddechrau ar ein rhaglen bontio i flwyddyn 6, ond wrth gwrs, nid yw eleni'n flwyddyn arferol.

Roeddwn yn dymuno cysylltu â chi i ddweud, gan obeithio tawelu meddwl, fod dysgwyr blwyddyn 6 yn flaenllaw yn ein meddyliau a'n cynlluniau ac y byddwn yn gweud ein gorau i ddarparu rhaglen bontio effeithiol, ond gwahanol, iddynt.

Cawsom gadarnhad yn ddiweddar o'r dysgwyr sydd wedi cael cynnig lle yn Ysgol David Hughes ar gyfer Medi 2020. Byddem yn ddiolchgar petaech yn cwblhau'r ffurflen https://forms.gle/gqcc2Z7orV1kebWA6 er mwyn rhannu'r wybodaeth hanfodol y bydd ei angen arnom i baratoi ar gyfer eich plentyn. Mae athrawon blwyddyn 6 yr ysgolion cynradd eisoes wedi rhannu gwybodaeth bugeiliol a chyrhaeddiad eich plentyn gyda ni.

Yn arferol, fe fyddem yn ymestyn gwahoddiad i ddysgwyr blwyddyn 6 ymweld â ni ddiwedd y mis yma, a thra na fydd yn bosib cynnal y tridiau arferol, rydym yn gobeithio cynnig i grwpiau bychan o ddysgwyr ymweld yn eu tro unai cyn ddiwedd y tymor neu yn fwy tebygol, ym mis Medi. Yn yr un modd, ni fydd yn bosib cynnal y cyfarfod i rieni oedd wedi ei drefnu ar gyfer Mehefin 25ain, ond fe fyddwn yn ymdrechu i rannu gwybodaeth a chynnal trafodaeth gyda chi drwy gydol y tymor. Fe fyddwn yn rhannu manylion penodol gyda chi cyn gynted â phosib.

Yn y cyfamser, byddem yn ddiolchgar be baech chi a'ch plentyn yn ymweld â'n gwefan www.ysgoldavidhughes.org. Dan y tab 'rhieni' fe welwch wybodaeth a fydd o fudd i chi, gan gynnwys ein llyfryn gwybodaeth i rieni a dysgwyr bl.6; ein cylchgrawn pontio blynyddol, wedi ei baratoi gan ddysgwyr blwyddyn 6 a 7 yn gynharach eleni; tasg y byddem yn falch petai pob plentyn yn ei gwblhau dros yr wythnosau nesaf a llyfryn pontio i ddysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol fydd yn help i rai teuluoedd o bosib. Yn ychwanegol ar y wefan fe welwch daith rhithiol o amgylch yn ysgol, gwybodaeth am y wisg ysgol a gwybodaeth am drafnidiaeth i'r ysgol.

Fe wnawn ein gorau i gadw mewn cysylltiad â chi dros yr wythnosau nesaf. Gallwch ddilyn digwyddiadau yn yr ysgol ar ein cyfrif Twitter @DavidHughesYDH.

Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at eich cyfarfod chi a'ch plentyn yn ystod yr wythnosau a misoedd nesaf. Os oes unrhyw gwestiynau pellach ganddo' chi, mae croeso i chi gysylltu gan ddefnyddio'r manylion uchod, ond wrth gwrs, mae llawer o waith cynllunio a pharatoi gennym i'w wneud eto.

Yr eiddoch yn gywir



O Ellis Hughes
(Pennaeth Blwyddyn 7)

H.Emyr Williams
(Pennaeth)